**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020 am 3.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Powderhill

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd W Lewis

**51 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**52 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**53 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**54 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2020 yn rhai cywir.

**55 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**56 CAIS RHIF: 20/1076**

**Newid defnydd tir ar gyfer codi strwythur i'w ddefnyddio gan gartiau 'coaster', addasiadau i adeilad presennol yr Ystafell Lampau ynghyd â gwaith cysylltiedig TIR AT FYNYDD Y RHIGOS A HEN SAFLE GLOFA'R TŴR, FFORDD Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Sioned Edwards (Asiant)
- Mr Sean Taylor (Ymgeisydd)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**57 CAIS RHIF: 20/0845**

**Garej (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 06/11/2020 - lled y drws rholer wedi'i ymestyn gan 5 metr). GARDD GOFFA, TERAS Y GELLI, LLANHARAN CF72 9PR**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Leigh Smith, yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanharan (Ymgeisydd)
- Mr Marc Smith (Gwrthwynebydd)
-

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr Leigh Smith, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Darllenodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys datganiad ysgrifenedig gan Mr Stephen Witts yn amlinellu pryderon ynghylch y cais.

Parhaodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad, a chynnwys amod ychwanegol i gyfyngu ar y defnydd o'r garej i storio offer cynnal a chadw ac nid i

barcio. Mae hyn er mwyn egluro cwmpas y cydsyniad er budd diogelwch y priffyrdd.

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Williams a S Powderhill o'r bleidlais gan nad oedden nhw'n bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

**58 CAIS RHIF: 20/0719**

**Newid defnydd arfaethedig - o safle rhentu cerbydau i safle gwerthu ceir ail-law. ENTERPRISE RENT A CAR, HEOL CAERDYDD, Y DDRAENEN WEN, PONTYPRIDD, CF37 5BB**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Gwen Thomas (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais wedi'i nodi uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu, yn ddarostyngedig i ddiwygio Amod 3 fel y ganlyn:

- Rhaid i'r lleoedd parcio a nodir ar y Cynllun Bloc Arfaethedig diwygiedig gael eu gosod ar y safle mewn deunyddiau parhaol, a'u cadw at ddibenion parcio cwsmeriaid a staff yn unig.

**59 CAIS RHIF: 19/0790**

**Estyniad i ystafell ddosbarth (Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig ac Asesiad Risg Mwyngloddio Glo ar 28 Hydref 2020). YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG LLANTRISANT, FFORDD CEFN-YR-HENDY, MEISGYN, PONT-Y-CLUN, CF72 8TL.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**60 CAIS RHIF: 20/0786**

**Newid dosbarth defnydd - o Lysoedd y Gyfraith a llety ategol i: Safle gwasanaethau ariannol a phroffesiynol A2, busnes B1, storio a dosbarthu B8, sefydliadau dibreswyl D1 ac ymgynnull a hamdden D2. YR HEN LYS YNADON, HEOL LLWYNYPIA, LLWYNYPIA, TONYPANDY, CF40 2HZ.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor.

Siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis, nad yw'n aelod o'r pwyllgor, ar y cais a chyflwynodd ei chefnogaeth mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, gan nodi'r amodau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad sy'n mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan drigolion lleol.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**61 CAIS RHIF: 20/0984**

**Adeilad newydd arfaethedig ar gyfer boeler biomas 500kw, man storio sglodion coed ynghyd ag estyniad i'r swyddfa a gwaith cysylltiedig. SIXTEENTH AVENUE, YSTAD DDIWYDIANNOL HIRWAUN, HIRWAUN.**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol fanylion y cais a gofynnodd i'r Aelodau ystyried gohirio'r cais gan nodi bod y cais yn ddarostyngedig i Gyfarwyddyd Erthygl 18, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod Swyddogion yn aros am fanylion pellach a sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r cais.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad ar y cais i gyfarfod arall o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol, er mwyn galluogi Swyddogion i dderbyn sylwadau terfynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac aros am ganlyniad Cyfarwyddyd Erthygl 18 gan Lywodraeth Cymru.

**62 CAIS RHIF: 20/1141**

**Newid math o dŷ - o ddau bâr o anheddau pâr i ddau annedd ar wahân. Ffordd y Rhigos, Hirwaun, Aberdâr.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**63 CAIS RHIF: 20/0464/10**

**Datblygiad Preswyl Arfaethedig a gwaith cysylltiedig. Tir yng Ngholeg y Cymoedd, Heol Cwmdâr, Cwmdâr.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2020, pan gymeradwyodd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 47).

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i ddarparu:

- Cyfraniad o £2,514 ar gyfer lleoedd ysgolion cynradd; a
- Chyfraniad o £7,000 ar gyfer cyfleusterau chwarae gwell ar y safle cyfagos

Hyn oll yn ogystal â'r Amodau a nodwyd yn yr adroddiad pellach.

**64 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 23/11/2020 – 04/12/2020.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**